ARLOESI GWYNEDD WLEDIG




# PROSIECTAU / PROJECTS

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

MENTER MÔN

NDA Nuclear Decommissioning Authority

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

LEADER

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Thêmau Prosiect:

# Project themes:

| | |
|---|---|
| 1. Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol. | 1. Adding value to local identity and natural and cultural resources. |
| 2. Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr. | 2. Facilitating pre-commercial development, business partnerships and short supply chains. |
| 3. Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol. | 3. Exploring new ways of providing non-statutory local services. |
| 4. Ynni adnewyddol ar lefel cymunedol | 4.Renewable energy at community level |
| 5. Manteisio ar dechnoleg ddigidol | 5. Exploitation of digital technology |




# **Tabl Cynnwys** Table of Contents

**THEMA 1 / THEME 1**

Prosiect 15 .......... 5

Rhodd Ymwelwyr Eryri / Snowdonia Visitor Giving .......... 6

Gwobrau Cymraeg / Welsh Awards .......... 7

Byw a Bod: Perfformio .......... 8

Astro Dwristiaeth Eryri / Eryri Astro-Tourism .......... 9

Rhodd Celf / Arts Giving .......... 10

Cysawd Eryri / Snowdonia Solar System .......... 11

Ardaloedd Llechi / Slate Areas .......... 12

BRO-Cast .......... 13

Gwerth yn y Wlad / Value in the Country .......... 14

Amgueddfa Dros-Dro / Pop-up Museum .......... 15

Cylchdaith Carneddau / Circular Walking Trail .......... 16

Biosffer Dyfi / Dyfi Biosphere .......... 17

Strydoedd Unigryw / Unique Streets .......... 18

Gwyliau Araf / Slow Holidays .......... 19

**THEMA 2 / THEME 2**

Be Nesa Llŷn? .......... 20

Indycube Porthmadog .......... 21

Hydroponics .......... 22

Amser i Fentro .......... 23

Peiriant Fendio  Cynnyrch Lleol / Local Produce Vending Machine .......... 24

Cegin Noddfa .......... 25

Cronfa Peilota Gwynedd / Gwynedd Piloting Fund .......... 26

Hoppa Harlech .......... 27

Presgripsiwn Cymdeithasol / Social Prescription .......... 28

Grŵp Cynhyrchwyr Gorau Gogledd Cymru / Best of North Wales Producer Group .......... 29

Cryfhau a Marchnata'r Marchnadoedd / Strengthening and Marketing the Markets .......... 30

Cyfleon Buddsoddi Pen Llŷn /  Internal Investment Pen Llŷn .......... 31



**THEMA 3 / THEME 3**

Gwastraff Swmpus / Bulky Waste .....32

O Ddrws i Ddrws .....33

Ceir Cymunedol Trydanol / Community Electric Cars .....34

**THEMA 4 / THEME 4**

Cyd Ynni .....35

Cyllid Torfol / Crowdfunding .....36

Pwyntiau Ceir Trydan / Electric Car Charging Points .....37

Bach a Sych / Small and Dry .....38

Pico Hydro .....39

Twizys .....40

Egni Bro .....41

Dewin Ynni / Energy Wizard .....42

Ysgol Ynni .....43

Ynni Gogledd Cymru / North Wales Energy .....44

**THEMA 5 / THEME 5**

O Glust i Glust .....45

'Pentre-Fi' Aberdaron .....46

Byw a Bod: Digidol .....47

Aberdaron: Dadansoddi ac Ecsbloetio Data / Aberdaron: Data Analytics and Exploitation .....48

Ffitbit Gwartheg .....49

Dementia Frongoch .....50

Pori Manwl / Precision Grazing .....51

Technoleg LoRaWAN Technology .....52

Academi Drôns Gwynedd / Gwynedd Drone Academy .....53

Tŷ Digidol / Digital House .....54

Dementia VR .....55

Systemau Digidol Cymunedol / Digital Systems for Communities .....56

Perchnogion Cymunedol / Community Ownership .....57

Wi-Fi Wyddfa / Snowdonia Wi-Fi .....58

Cymunedau Cysylltiedig / Connected Communities .....59

Data Gwynedd .....60




# THEMA 1



Lleisiau i'ch ysbrydoli



/prosiect15

@prosiect15

## Prosiect 15
(AGW.036)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
Project peilot gyda'r prif nod o roi llwyfan i Gymry Cymraeg llwyddiannus i ddweud eu hanes mewn darlith 15 munud.

*Trosolwg o'r prosiect:*
Bwriad Prosiect 15 yw dathlu llwyddiannau unigolion ysbrydoledig sy'n siarad Cymraeg drwy roi cyfle iddynt roi sgwrs 15 munud ar ffurf sgwrs 'TED'. Mae yna siaradwyr Cymraeg sy'n gysylltiedig â sefydliadau mwyaf blaenllaw'r byd, brandiau byd-eang ac unigolion mewn galwedigaethau blaenllaw.

Mi fydd "Prosiect 15" yn gwahodd 5 siaradwr o feysydd cwbl wahanol i roi 15 munud o ddarlithoedd ysbrydoledig am eu profiadau mewn arddull darlithoedd TAD.

Am fwy o wybodaeth a fideos o'r darlithoedd:
www.prosiect15.cymru
*https://twitter.com/prosiect15*

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
Pilot project with the aim of establishing a platform for successful Welsh speakers to share their experiences in a 15 minute lecture.

*Overview of the project:*
The aim of Prosiect15 is to provide a platform for successful and inspiring individuals to give 15 minute 'TED' style talks through the medium of Welsh. There are Welsh speakers to be found in professions with some of the world's leading organisations, brands across the globe and individuals affiliated with all sorts of interesting occupations worldwide.

Prosiect15 will be inviting 5 inspiring Welsh-speaking individuals from completely different backgrounds to share their experiences in 15 minute talks to challenge, inspire and evoke discussion.

For more information and videos of the talks:
www.prosiect15.cymru




## **Rhodd Ymwelwyr Eryri** Snowdonia Visitor Giving (AGW.002)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r prosiect Rhodd Ymwelwyr yn ceisio profi os oes awydd ymysg ymwelwyr a busnesau i dreialu gwahanol ddulliau o godi arian tuag at brosiectau lleol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae Rhodd Ymwelwyr yn gynllun lle mae cyfle i ymwelwyr rhoi swm gwirfoddol o arian tuag at brosiectau lleol. Fel arfer, mae'r rhodd yn cael ei wneud drwy ychwanegu ychydig o bunnoedd i fil y bwyty, llety neu weithgaredd.

Bydd y pwyslais ar weithio gyda gwahanol fathau o fusnesau a threialu amrywiaeth o ddulliau casglu arian er mwyn dysgu o'r broses. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y cynllun peilot yn darparu sylfaen cadarn ar gyfer datblygu cynllun parhaol.

Am fwy o wybodaeth:
www.snowdoniagiving.wales/

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The Visitor Giving project aims to prove whether there is a desire among visitors and businesses to test out various methods of raising money towards local projects.

*Overview of the project:*

Visitor Giving is a scheme whereby visitors make a small voluntary donation that goes towards local projects. These donations are usually made by adding a few pounds to a restaurant, accommodation or activity bill.

The emphasis will be on working with different types of businesses and trying a range of collection methods in order to learn from the process. If successful the pilot project will provide a platform on which a permanent project can be built.

For more information:
www.snowdoniagiving.wales/






# **Gwobrau Cymraeg** Welsh Awards

# (AGW.035)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Gwobrau busnes 'Mwyaf Cymraeg yn y byd' dros Wynedd gyfan. Cyfle i ddathlu'r busnesau sydd yn gwneud defnydd da o'r Iaith Gymraeg o fewn eu busnesau yn barod, ac yn ei dro ysbrydoli busnesau eraill.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Gwobrau busnes ychydig yn wahanol i'r arferol, gan gamu i ffwrdd o wobrau proffesiynol/ masnachol a throi at ffordd sionc a thafod mewn boch o ddathlu busnesau sydd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg o fewn eu busnesau. Cynigir bod 3 categori i gychwyn, sef 'Tafarn neu fwyty', 'Stryd' a 'Siop'. Bydda'r gwobrau yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn drwm, a'r cyhoedd yn pleidleisio am eu henillwyr.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

'Most Welsh business in the world' awards to be held across Gwynedd. The project is an opportunity to celebrate those businesses benefitting from using the Welsh language within their business already, and in turn inspire other businesses.

*Overview of the project:*

The awards will be quite different from the norm, shying away from corporate and professional awards to a fun, tongue in cheek way of celebrating businesses that already use Welsh in their businesses. We suggest starting with 3 categories, which would be 'Most Welsh... Pub or Restaraunt...Shop...Street'. The awards would use social media heavily, and the public would vote for their winners.

http://www.arloesigwyneddwledig.com/gweithgareddau/prosiectau/thema-1/gwobrau-busnes-mwyaf-cymraeg-yn-y-byd/?lang=en




# **Byw a Bod: Perfformio** Byw a Bod: Performing (AGW.030)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r prosiect yn ceisio treialu ffyrdd newydd o gyflwyno iaith, diwylliant a threftadaeth i ymwelwyr.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Cyfle i israddedigion i gymryd rhan mewn prosiect perfformio i gyflwyno iaith, diwylliant a threftadaeth i ymwelwyr yng Ngwynedd.

Gall iaith, diwylliant a threftadaeth ychwanegu at y profiad o ymweld â Gwynedd.  Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn chwilio am 5 o fyfyrwyr uchelgeisiol a chreadigol i beilot ffyrdd celfyddydol o gyflwyno iaith, diwylliant a threftadaeth .  Bydd prosiect Byw a Bod yn cynnig cyfle i gydweithio gydag artistiaid proffesiynol o dan arweiniad cwmni Frân Wen er mwyn dod â hunaniaeth Gwynedd yn fyw.

Yn cynnwys 9 wythnos o gyflogaeth dros yr haf a hyfforddiant ar sut i ddyfeisio a chyflwyno perfformiadau stryd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

A project which aims to pilot new ways of presenting language, culture and heritage to visitors.

*Overview of the project:*

A creative opportunity for undergraduates to participate in a performance project to introduce language, culture and heritage to visitors in Gwynedd.

The Welsh language, culture and heritage adds to the experience of visiting Gwynedd. Arloesi Gwynedd Wledig is looking for 5 ambitious and creative students to pilot ways of presenting language, culture and heritage through arts. The Byw a Bod project will offer the opportunity to work with professional artists led by Fran Wen Theatre Company to bring Gwynedd identity alive.

Includes 9 weeks of employment over the summer and training on how to devise and introduce street performances.



# Astro Dwristiaeth Eryri

## Eryri Astro-Tourism

## (AGW.012)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Gall statws Awyr Dywyll ddenu twristiaid ychwanegol i'r ardal, yn enwedig y tu allan i'r tymhorau brig.
Mae gan statws Awyr Dywyll werth economaidd gwirioneddol.
Gall darparwyr llety gynnig pecynnau astro-dwristiaeth, heb iddynt fod â sgiliau neu wybodaeth seryddiaeth helaeth.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi derbyn statws awyr dywyll rhyngwladol - un o ddim ond 11 yn fyd-eang.
Golyga'r dyfarniad mai Cymru bellach yw'r wlad gyda'r gyfran uchaf o'i thiriogaeth awyr y nos gyda statws diogelu, ar tua 18%. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd gyda'r dynodiad hwn, tra bod Cwm Elan yn Barc Awyr Dywyll Rhyngwladol a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro â nifer o safleoedd  Canfod Awyr Dywyll. Yn ogystal, mae Ynys Enlli ar fin cael ei dynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.
Mae'r statws a ddyfarnwyd i Eryri yn cael ei roi gan y Gymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll i leoedd sydd wedi profi bod eu hansawdd awyr y nos yn rhagorol a bod ymdrechion go iawn yn cael eu gwneud i leihau llygredd golau.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Dark Sky status can attract additional tourists to the area, especially outside the peak seasons.
Dark Sky status had real economic value.
Accommodation providers can offer Astro tourism packages without having extensive skills or knowledge of astronomy.

*Overview of the project:*

Snowdonia National Park has been awarded international dark sky status – one of only 11 globally.
The award means Wales is now the country with the highest proportion of its territory boasting night skies with a protected status at circa 18%. The Brecon Beacons National Park also has the designation, while the Elan Valley is an International Dark Sky Park and the Pembrokeshire Coast National Park has several Dark Sky Discovery Sites. In addition, Ynys Enlli/Bardsey Island is soon to be designated an International Dark Skies Sanctuary,
The status awarded to Snowdonia is given by the International Dark Sky Association to places that have proven the quality of their night air is outstanding and real efforts are being made to reduce light pollution.



# **Rhodd Celf** Arts Giving

# (AGW.042)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Dull arall o godi arian ar gyfer sector y celfyddydau yng Nghymru.
Bod y cyhoedd yn barod i gyfrannu swm gwirfoddol i gefnogi prosiectau celfyddydol penodol yng Ngwynedd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae'r adran gelfyddydau yng Ngwynedd yn gwynebu gostyngiad mewn cyllid o'r sector gyhoeddus. Fel ymateb i hyn, mae AGW wedi addasu model Rhodd Eryri lle mae'r cyhoedd yn cael cyfle i wneud rhoddion gwirfoddol bach drwy brynu pethau fel tocynnau i sioeau, digwyddiadau ayyb.
Gall y prosiect rhoi llwyfan parod er mwyn adeiladu arno os yw'n llwyddiant.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

A method of raising money for the arts industry in Wales.
That the public are ready to contribute a voluntary amount to support specific arts projects in Gwynedd.


*Overview of the project:*

The arts section in Gwynedd is facing a reduction in funding from the public sector. As a response to this, AGW is adapting the Rhodd Eryri model in which the public are given the chance to make small, voluntary donations through purchasing things such as tickets for shows and events. The project can provide a platform to build on if the project was to be a success.

# Cysawd Eryri

## Snowdonia Solar System

## (AGW.047)




*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Os gellir ychwanegu gwerth economaidd ac addysgol o'r statws Gwarchodfa Awyr Dywll sydd wedi cael ei ddynodi ar Parc Cenedlaethol Eryri. Os oes modd hyrwyddo yr statws fawreddog yma i gynorthwyo busnesau twristiaith lleol ac estynu y tymor ymwelwyr.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y cynllun yn ail-greu Cysawd yr Haul o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Bwriedir gwneud hyn drwy osod planedau a rhinweddau cosmig eraill mewn busnesau a adeiladai cyhoeddus gan ddefnyddio pellteroedd cymhareb. Mae'r model yn fodd effeithio o osod maint Cysawd yr Haul yn ei gydestyn a ychwanegu gwerth ar statws Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Eryri.

Bwriedir gosod y planedau yn y mannau cywir (o ran pellter) gan roi alenoriaeth i fusnesau e.e. caffis, bwytai ac atyniadau. Byddwn yn recriwtio y lleoliadau drwy broses galwad agored er mwyn rhoi cyfle i fusnesau ymgeisio.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

To see if the Dark Sky status that has been awarded to Snowdonia National Park can add economic and educational value to the area. Is there a way of promoting this prestigious award to help local tourism businesses and extend visitor season.

*Overview of the project:*

The plan will recreate the Solar System within the Snowdonia National Park. The intention is to do this by placing planets and other cosmic qualities in businesses and public buildings using a distances ratio. The model is an effective way to place the size of the Solar System in its context and add value to the Dark Sky status of Snowdonia National Park.

It is intended to set the planets in the right places (distance-wise) giving priority to businesses eg cafes, restaurants and attractions. We will recruit the settings through an open call process to allow businesses to apply.




# **Ardaloedd Llechi** Slate Areas

# (AGW.071)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Creu gwell dealltwriaeth a dehongli o'r diwydiant llechi o fewn cymunedau dethol, yn ogystal â chreu naratif i ddweud hanes y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Nod y prosiect yw i ddatblygu cymunedau llechi yng Ngwynedd, gan fod rhai o'r ardaloedd gyda profiad a chyfleusterau cyfyngedig fel cyrchfannau i dwristiaeth.

Mi fydd nifer o drefi yn cael ei ymchwilio yn gymhwysol ac mi fydd y rhai sydd wedi derbyn y gefnogaeth arian cyhoeddus leiaf yn y blynyddoedd diwethaf yn cael eu nodi. Gall pob ardal gynnig pobl a chyfleoedd gwahanol, a bydd pob cymuned â graddau amrywiol o gysylltiad â'u diwydiant llechi lleol.

Bydd gan bob cymuned o leiaf un sefydliad trydydd sector sefydledig rhagweithiol lleol sy'n gweithio er lles yr ardal, a bydd gan bob cymuned randdeiliad allweddol o Dasglu Economaidd Llechi Cymru yn bresennol i gynnig cyfeiriad strategol i'r gwaith. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod ysgolion lleol yn cyfranogi fel rhanddeiliad pwysig yn y Cynlluniau Seiliedig ar Le; eisoes mae cysylltiadau cryf yn cael eu meithrin rhwng Llechi Cymru ac Ysgolion Uwchradd yn yr ardal enwebu.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

To create a better understanding and interpretation of the slate industry within select communities as well as creating a narrative for telling the story of the slate industry in North Wales.

*Overview of the project:*

The aim of the project is to develop slate communities in Gwynedd, as many of the areas lack the experience and facilities to cater for tourists. Many of the nominated towns will be researched and the ones that have received the least amount of financial support from the public sector will be noted. Each location can offer different people and opportunities, and each community will have varying degrees of connection to their local slate industry.

All communities will have at least one well-established and pro-active third sector local organisation working for the benefit of the area and each community also has a key stakeholder from the Wales Slate Economic Task Force present to offer strategic direction to the work. We are also keen to ensure that local schools are involved as a major stakeholder in the Place Based Plans; strong links are already being forged between Wales Slate and some Secondary Schools within the nomination area.




# BRO-Cast

## (AGW.061)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Peilota system o ddarlledu digidol cymunedol fel cyfrwng i gynyddu ymwybyddiaeth, newid cymdeithas a datblygu cymunedol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae mwy o fentrau cymdeithasol y pen ym Mro Ffestiniog nag unrhyw ran arall o Gymru ac maent yn cynnig ystod o wasanaethau amrywiol sydd o fudd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, addysgol a chymunedol.

Y syniad tu ôl BRO-Cast yw i Peilota system o ddarlledu digidol cymunedol fel cyfrwng i gynyddu ymwybyddiaeth, newid cymdeithas a datblygu cymunedol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Pilot a system of digital community broadcasting as a means of raising awareness, changing society and community development.

*Overview of the project:*

There are more social enterprises in the Bro Ffestiniog area per head than any other part of Wales, and they offer a range of services with environmental, economic, social, educational and community benefits.

The idea behind BRO-cast is that it is Piloting a system of digital community broadcasting as a means of raising awareness, changing society and developing the community.



# **Gwerth yn y Wlad** Value in the Country (AGW.078)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Ychwanegu gwerth i ased naturiol sydd yn bodoli yn barod drwy fentro mewn i meysydd awyr agored Newydd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae'r sector beicio ffordd wedi tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd diweddar gyda 2 filiwn o bobl yn beicio oleiaf unwaith yr wythnos yn ôl Beicio Prydain, y corff sy'n rheoli'r gamp ym Mhrydain. Mae yno nifer o lonydd a llwybrau beicio dynodedig yng Ngwynedd sydd yn rhoi cyfle i bobl leol ac ymwelwyr gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden.

I ychwanegu gwerth i'r economi leol, awgrymir rhedeg prosiect i gysylltu busnesau gyda beicio. Drwy weithio yn ddwys gyda nifer bach o fusnesau gellir peilot gwasanaethau amrywiol i feicwyr a monitro diddordeb a defnydd.

Bydd y prosiect yn cynnig hyfforddiant a chyfarpar i fusnesau er mwyn denu beicwyr i'w busnesau.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

How we can add value to a natural asset that already exists by venturing into new fields of outdoor activity.

*Overview of the project:*

The road cycling sector has grown tremendously over the past few years, with 2 million people riding once a week according to British Cycling, the body that controls the sport in Britain. There are a number of designated lanes and cycle routes in Gwynedd which give local people and visitors the chance to take part in a recreational activity.

To add value to the local economy, we suggest running a project to link businesses with cycling. Working intensively with a small number of businesses, we can pilot various services for cyclists and monitor interest and use.

The project will offer businesses training and equipment to attract bikers to their businesses.



# **Amgueddfa Dros Dro** Pop Up Museum (AGW.072)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae hwn yn brosiect mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith rhaglen 'Cyfuno Gwynedd' i gydlynu amgueddfeydd dros dro mewn ardaloedd di-freintiedig ar draws Gwynedd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect peilot yn edrych ar redeg nifer o amgueddfeydd dros dro mewn ardaloedd gwledig.

Mi fydd y prosiect yn canolbwyntio ar gynnal gweithgareddau mewn sefydliadau gwahanol ar draws Gwynedd. Gall hwn fod mewn archfarchnad, gorsaf trên /bws, neuadd gymunedol neu ar Lan y Môr. Bydd y prosiect hwn yn rhoi cyfle i bobl leol gwerthfawrogi eitemau o arwyddocâd hanesyddol, a bydd yn dod â phobl at ei gilydd mewn sgwrs trwy storïau, celf a gwrthrychau.

Wrth gyd weithio gydag amryw o leoliadau a chymunedau byddant yn gwneud yn siŵr fod yna gyfleodd i'r gymuned a phobl ifanc fod yn rhan o'r prosiect o'r gwaith i'w sefydlu trwy i'r digwyddiadau eu hunain. Yn benodol mae'n bwysig ein bod ni yn codi ymwybyddiaeth o'r hanes lleol gyda phobl a chael nhw i gymeryd perchnogaeth o beth sydd yn digwydd yn eu ardaloedd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

This is a project in partnership with the 'Gwynedd Fusion' Programme Network to co-ordinate pop-up museums in deprived areas across Gwynedd.

*Overview of the project:*

The pilot project will look at running a number of pop-up museums in rural areas.

The project will focus on hosting activities in different organisations across Gwynedd. This can be a supermarket, train/bus station, community hall or on the Beach. This project will give local people the opportunity to appreciate items of historical significance, and bring people together in a conversation via stories, art and objects.

Working together with a variety of settings and communities, they will ensure that there are opportunities for the community and young people to be involved in the project, from the establishment period through to the events themselves. In particular, it is important that we raise awareness of the local history with people, and get them to take ownership of what is happening in their areas.






# **Cylchdaith Carneddau** Circular Walking Trail (AGW.066)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
Bydd hon yn astudiaeth ddichonolrwydd i edrych ar gysylltu cymunedau lleol â llwybr cerdded o gwmpas Mynyddoedd y Carneddau.

*Trosolwg o'r prosiect:*
Bwriada Prosiect Partneriaeth Tirwedd Carneddau a ariennir gan CDL greu a hyrwyddo llwybr cylchol o amgylch masiff y Carneddau: Cylchdaith y Carneddau. Bydd yn hyrwyddo cyfleoedd economaidd ac annog gwell ymwybyddiaeth a defnydd cynaliadwy o'r ardal. Fel llwybr aml-ddydd, bydd yn annog aros dros nos mewn pentrefi a threfi o gwmpas y llwybr a gwariant ychwanegol gan ymwelwyr ar lety ac mewn siopau lleol. Bydd yn annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus (a busnesau trafnidiaeth breifat lleol) i gysylltu rhannau o'r llwybr ar gyfer pobl sy'n ei gerdded mewn rhannau dros ddiwrnodau olynol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
This will be a feasability study to look at connecting local communities to the walking route around the Carneddau Mountains.

*Overview of the project:*
The HLF-funded Carneddau Landscape Partnership Project is proposing to create and promote a low-level, circular, trail around the Carneddau massif: Cylchdaith y Carneddau. It will promote economic opportunities and encourage better awareness and sustainable use of the area. As a multi-day route it will encourage stop-overs in villages and towns around the route and additional spend by visitors on accommodation and in local shops. It will encourage the use of public transport (and local private transport businesses) to link portions of the trail for people tackling it in sections over consecutive days.

# **Biosffer Dyfi** Dyfi Biosphere

# (AGW.006)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Ceisio profi os oes modd manteisio ar frand a statws dynodedig ardal er mwyn ysgogi / uchafu budd ychwanegol (boed yn economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol) i gymunedau a busnesau.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae sawl ardal ym Mhrydain a thu hwnt yn meddu ar statws dynoedig megis UNESCO, AHNE ayyb. Nod y cynllun hwn yw ceisio profi os oes modd manteisio ar frand a statws dynoedig ardal er mwyn ysgogi / uchafu budd ychwanegol i fusnesau a chymunedau o fewn yr ardal honno.

Mae ardal Biosffer Dyfi (ardal sydd wedi'i chanoli o gwmpas Afon Dyfi ac sydd yn cwmpasu ardaloedd pellefig ardal Meirionydd o Wynedd), ac sydd yn meddu ar satws ryngwladol a chydnabuwyd gan UNESCO, yn cynnig ei hun fel ardal beilot.

Caiff y cynllun ei beilota am gyfnod o ddwy flynedd, a disgwylir i'r cynllun gael ei arwain yn sgil recriwtio animeiddiwr. Disgwylir i waith yr animeiddiwr o ddatblygu capasiti a chefnogi gweithgareddau fod wedi ei ffocysu ar hyrwyddo ac uchafu brand dynodedig y biosffer. Mae amcanion clir ar gyfer y swydd / animeiddio eisoes wedi cael ei ddrafftio.

http://www.cynnalycardi.org.uk/welsh/?page_id=2779

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

It is attempting to prove whether it will be possible to use an area's designated brand and status to maximise additional benefit (whether economic, social or industrial) for communities and businesses.

*Overview of the project:*

Many areas in the UK and beyond have a designated status such as UNESCO, AONB etc. The aim of this scheme is to attempt to see whether it will be possible to use an area's designated brand and status to maximise additional benefit for communities and businesses within that area.

The Biosffer Dyfi area (an area centred around the Dovey River and encompassing the remote areas of the Meirionnydd to Gwynedd region), and which has international status acknowledged by UNESCO offers itself as a pilot area.

The scheme will be piloted for a period of two years and it is expected to be led by an animateur who will be appointed in due course. The work of the animateur in developing capacity and supporting activities is expected to focus on promoting and maximising the designated brand of the biosphere. Clear aims for the post / animateur have already been drafted

http://www.cynnalycardi.org.uk/welsh/?page_id=2779

# **Strydoedd Unigryw** Unique Streets (AGW.085)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Bydd y peilot yn edrych ar geisio adnabod ffyrdd ble gall strydoedd mewn cymunedau gwledig gystadlu gyda chanolfannau siopa ac 'online retailers' er mwyn cynyddu niferoedd sy'n ymweld a'r ardal, ac yn ei dro cyfrannu tuag at gynyddu'r ££ gaiff ei wario yn lleol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae tystiolaeth yn dangos fod siopa ar-lein, canolfannau siopa mawr ac archfarchnadoedd, i enwi ond ychydig ffactorau, wedi cael effaith negyddol ar fasnach y Stryd Fawr a hynny yn ei dro wedi cyfrannu tuag at ddirywiad yn ein canol trefi.

Disgwylir i'r prosiect hwn gefnogi hyd at 3 o ardaloedd i dreialu prosiectau fydd yn ceisio:-

- cynyddu nifer o ymwelwyr i'r Stryd Fawr / Canol tref

- cynyddu'r lefel o fasnachu yn lleol

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The pilot will identify ways in which the high street and town centres can compete with shopping centres and online retailers to increase visitor numbers to the area, and in turn contribute to increasing local spending.

*Overview of the project:*

Evidence shows that online shopping, large shopping centres and supermarkets, to name but a few factors, have had a negative impact on High Street trade, which in turn has contributed to a decline in our town centres.

This project is expected to support up to 3 areas to pilot projects that will: -


- increase the number of visitors to the High Street / Town centre

- Increase the level of local trading





# **Gwyliau Araf** Slow Holidays (AGW.091)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Oes posib creu Pen Llyn fel lleoliad ar gyfer 'gwyliau araf' (slow holidays)? Y syniad yw hyrwyddo'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig eisoes trwy roi brand gwyliau araf arno.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bwriad yr ymchwil fyddai edrych yn fanwl ar y syniad o ddatblygu Pen Llyn fel ardal ar gyfer 'gwyliau araf' gan amlygu pa gamau posib all gael ei gymryd.

Byddai unrhyw ymgyrch yn canolbwyntio ar ochr hamddena a cherdded sydd ym Mhen Llyn. Byddai'n rhoi pwyslais ar geisio cysylltu cymunedau ac ymwelwyr gyda'r Llwybr Arfordir.

Fel rhan o'r prosiect mi fydd arbenigwr cyfryngau cymdeithasol yn gweithio hefo'r grŵp er mwyn eu galluogi nhw i hyrwyddo'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig yn well.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Is it possible to create Pen Llŷn as a location for 'slow holidays'? The idea is to promote what the area has to offer by giving it a slow holiday brand.

*Overview of the project:*

The aim of the research would be to look closely at the idea of developing Pen Llŷn as an area for 'slow holidays', highlighting what potential steps could be taken.

Any campaign would focus on the recreational and walking side of Pen Llŷn. It would place an emphasis on trying to connect communities and visitors to the Coastal Path.

As part of the project, a consultant will work with the group to enable them to better promote what the area has to offer through social media.



# THEMA 2




## Be Nesa Llŷn?

## (AGW.001)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
Prosiect sydd yn ceisio sefydlu model "buddsoddiad mewnol", annog fwy o fentergarwch ac adnabod a manteisio ar adnoddau lleol er budd yr economi ym Mhen Llŷn â'r gymuned yn gyffredinol.

*Trosolwg o'r prosiect:*
Cronfa benthyciadau ar gyfer pobl Pen Llŷn i gychwyn busnes newydd neu i dyfu busnes sy'n bodoli'n barod. Posibilrwydd o gael benthyciad di-log o hyd at £5,000.

Wedi'i ariannu'n gyfan gwbl gan 11 o bobl busnes Pen Llŷn, sydd eisiau rhoi'r cyfle orau posib i bobl ifanc Llŷn lwyddo mewn busnes a chryfhau'r economi leol.

Am fwy o wybodaeth:
www.benesallyn.wordpress.com

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
Project which aims to establish an inward investment model which encourages entrepreneurship and identifies and exploits local resources for the benefit of Pen Llŷn's economy and community in general.

*Overview of the project:*
Loan fund for people living in Pen Llŷn to start a new venture or grow an existing business. Possibility of getting an interest free loan of up to £5,000.

Completely financed by 11 local business people, who want to offer the best support to Pen Llŷn's young people to succeed in business and strengthen the local economy.

For more information:
www.engbenesallyn.wordpress.com

# Indycube Porthmadog

## (AGW.008)




*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
Ydi gofod cydweithio yn hyfyw ac o fudd o fewn cymunedau gwledig yng Ngwynedd?

*Trosolwg o'r prosiect:*
Mae nifer uchel o fusnesau hunan-gyflogedig o fewn Gwynedd, lle mae'r perchnogion yn gweithio o adref. Noder fod rhai perchnogion yn gweld y dull hwn o weithio'n ynysig, gydag eraill yn rhwystredig cadw'r balans rhwng gwaith a dyletswyddau arferol y cartref.

Mae'r prosiect a gyflwynir yma ar gyfer peilota model busnes o gydweithio sydd eisoes yn llwyddiannus yn Ne Cymru, sy'n cynnig cyfleusterau 'desg-poeth'.

Mae model Indycube yn cynnwys gosod desgiau gweithio o fewn yr adeilad ac agored yn ddyddiol. I rhentu desg, buasem yn edrych i dreialu ffi o £10 y diwrnod, gyda gostyngiadau am drefniadau wythnosol a misol. Bydda'r elfen incwm yn caniatau Arloesi i fonitro a gwerthuso petae'r model yn hunan-gynhaliol ac yn addas i'w efelychu yn ardaloedd eraill yng Ngwynedd yn y dyfodol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
Are co-working spaces viable and of benefit within rural communities in Gwynedd?

*Overview of the project:*
There are a high number of self-employed businesses within Gwynedd, where the owners work from home. It is found that some owners find this format isolating, and some may even struggle to concentrate on work whilst facing general domestic duties at home.

The project presented here is to pilot a successful co-working business model already working in South Wales, which offer hot-desking facilities.

The Indycube model consists of placing work desks in the library and be open daily. To rent a desk, we would look at charging a fee of £10 per day, with discounts for weekly and monthly arrangements. The income aspect would allow Arloesi to monitor and evaluate whether the model would be self-sufficient and be able to be replicated across Gwynedd in the future.



# Hydroponics

## (AGW.051)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r astudiaeth dichonoldeb yn anelu at gyflawni'r canlynol:

- Paratoi model busnes ar gyfer cynllun Hydroponeg Gwynedd
- Amlinellu gofynion technegol ar gyfer y model
- Amlinellu gofynion cost sefydlu'r model.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn cynnwys sefydlu canolfan ragoriaeth hydroponeg yn Fferm Glynllifon (rhan o Grŵp Coleg Llandrillo Menai) a fydd yn hysbysu ac yn addysgu'r gymuned ffermio am y technegau tyfu diweddaraf nad ydynt yn seiliedig ar bridd. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio canfod model cynhyrchu a dosbarthu yn seiliedig ar ardal, a allai gynnwys clwstwr o dyfwyr rhyngddibynnol ar draws Gogledd Orllewin Cymru a thu hwnt.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The feasibility study to seeking to:

- Prepare a business model for a Gwynedd Hydroponics scheme
- Outline the technical requirements for the model
- Outline the cost requirements to establish the model.

*Overview of the project:*

The project will involve establishing a hydroponics centre of excellence at Glynllifon Farm (Part of the Coleg Llandrillo Menai Group) that will inform and educate the farming community about the latest non-soil based growing techniques. The project will also look to identify an area based production and distribution model that could involve a cluster of interdependent growers across North West Wales and beyond.




# Amser i Fentro

## (AGW.050)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

- Arddangos ffynhonnell newydd o entrepreneuriaeth trwy ddefnyddio sgiliau a syniadau pobl sydd ar hyn o bryd mewn cyflogaeth.
- Dangos gwerth rhyddhau unigolion o rywfaint o'u gwaith beunyddiol er mwyn datblygu syniadau busnes.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Amcan prosiect **Amser i Fentro** yw caniatáu amser i unigolion mewn gwaith llawn amser i ddatblygu syniadau heb ostyngiad mewn incwm.  Mae hefyd yn ceisio dynwared y cysyniad "amser 20% " a ddefnyddir gan rai cwmnïau mawr yn y sector preifat, fel Google a 3M. Mae'n galluogi staff i dreulio un rhan o bump o'u hamser yn datblygu prosiectau tu allan i'w rhaglen waith arferol, ac mae wedi arwain at arloesedd fel Gmail a'r 'Postit Note'.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

- Demonstrate a new source of entrepreneurship by utilising skills and ideas of people currently in employment.
- Demonstrate the value of releasing individuals for some of their day to day work in order to develop business ideas.

*Overview of the project:*

The aim of the **Amser i Fentro** project will be to allow individuals in full time employment with time to develop ideas without a reduction in income.  It also seeks to mimic the "20% time" concept used by some large private sector companies such as Google and 3M.  It allows staff to spend a fifth of their time developing projects outside their usual work programme and has lead to innovations such as Gmail and the Postit Note.



# Peiriant Fendio Cynnyrch Lleol

## Local Produce Vending Machine

## (AGW.069)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Treialu peiriant fendio gyda cynnyrch lleol i werthu yn uniongyrchol i gwsmeriaid mewn lleoliadau ar draws Gwynedd mewn modd arloesol, cost-effeithlon a dibynadwy.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Grŵp o ffermwyr wedi dod at eu gilydd a chyd-weithio i gyflenwi uned fendio gyda eu cynyrch i werthu yn uniongyrchol i gwsmeriaid. Mi fydd tua 4-5 o sefydliadau lleol yn fodlon lleoli peiriant fendio ar eu safle. Mae'r peiriannau yn cynnwys cynnyrch lleol megis bara, llaeth, caws, menyn, cig a jam.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Trial a vending machine with local produce to sell directly to customers in locations across Gwynedd in an innovative, cost-efficient and reliable way.

*Overview of the project:*

A group of local farmers have come together and collaborated to supply a vending machie with their products to sell directly to customers. Around 4-5 local organizations were willing to locate a vending machine on their site. The vending machines will contain local produce such as bread, milk, cheese, butter





# Cegin Noddfa

## (AGW.057)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Yn deillio o raglen Cymunedau yn Gyntaf ardal Peblig, Caernarfon, mae dyhead i sefydlu Menter Gymunedol sydd yn darparu bwyd maethlon aml bwrpas - yn gymysg o fwyd cyflym 'tecawe', arlwy caffi dyddiol a gwasanaeth bwyty ar ben wythnosau, ynghyd a pharatoi bwyd ar gyfer digwyddiadau achlysurol oddi ar y safle.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Prif fwriad menter Cegin Noddfa ydi i fanteisio ar y mynediad sydd gan aelodau y Pwyllgor Rheoli, ynghyd a Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ward Peblig, at famau a theuluoedd yr ardal er mwyn rhoi rhaglen ar waith fydd yn cael effaith mesuradwy ar agweddau ac ymarferion bwyta a choginio y trigolion lleol.

Drwy gyflogi cogydd sydd yn meddu ar ddawn cyfathrebu a darparu bwydydd sydd yn rhad, yn ddiddorol ac yn iach, rhagwelwn caffi Cegin Noddfa wedyn yn darparu gwasanaeth fydd wedi ei adeiladu ar yr egwyddorion yma o fwyd iach, fforddiadwy a phoblogaidd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Following on from the Communities First programme in the Peblig area of Caernarfon, there is a desire to set up a Community Initiative that provides multi-purpose nutritious food – a mix of fast food 'takeaway', usual café fare, and a restaurant service at weekends, together with food preparation for occasional off-site events.

*Overview of the project:*

The main purpose of Cegin Noddfa is to take advantage of the access that members of the Management Committee, together with the Peblig ward Communities First Programme, have to mothers and families in the area, to implement a programme that will have a measurable effect on the attitudes of local residents to food and cooking.

By employing a chef who has the ability to communicate and provide cheap, interesting and healthy foods, we anticipate that Cegin Noddfa café will provide a service built on these principles of healthy, affordable and popular food.




# Cronfa Peilota Gwynedd

## Gwynedd Piloting Fund

## (AGW.068)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Creu cronfa wedi'i thargedu at grwpiau cymunedol i'w galluogi i dreialu gweithgareddau newydd a fydd yn cyfrannu tuag at eu cynaliadwyedd tymor hir ac yn darparu gwasanaethau newydd.

Bydd gofyn i'r grwpiau gyflwyno ceisiadau yn manylu beth fyddent yn ei dreialu a pha gymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Prif nod y prosiect yw creu cronfa o £100k er mwyn ymateb i'r galw gan grwpiau cymunedol sydd yn chwilio am swm bach o arian i'w cefnogi i fod yn fwy creadigol a chynaliadwy. Rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau gan Grwpiau Cymunedol am gymorth i dreialu syniadau creadigol, ond nad ydynt yn ddigonol i gyflwyno cais llawn i'r GGLl. Felly bydd y gronfa yma ar gael i grwpiau cymunedol gwledig i ymgeisio am arian i Arloesi Gwynedd Wledig am symiau hyd at £10,000. Bydd yr arian ar gael i gymunedau wneud astudiaethau dichonoldeb, gweithgareddau, neu i brynu offer i'w hannog i fod yn fwy cynaliadwy.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Create a fund targeted at community groups to enable them trial new activities that will contribute towards their long term sustainability and provide new services.

The groups will be required to submit applications detailing what would like to trial and what support they require to progress.

*Overview of the project:*

The main aim of the project is to create a fund of £100k in order to respond to the demand from community groups who are looking for a small sum of money to support them to become more creative and sustainable. We have received several enquiries from Community Groups for help to pilot creative ideas, but they do merit submittig a full application to the LAG. This fund will therefore be available to rural community groups to apply for money to Arloesi Gwynedd Wledig for up to £10,000. The money will be made available to communities for items such as feasibility studies, activities and to buy equipment to support them to become more sustainable.








# Hoppa Harlech

## (AGW.079)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Pwrpas y peilot hwn yw penderfynu a ellir sefydlu model sy'n gynaliadwy'n ariannol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth a fydd yn talu drosto'i hun o gyfuniad o refeniw defnyddwyr a chyfraniadau gan atyniadau ymwelwyr, masnachwyr a'r Cyngor Cymuned.

Bydd y peilot hefyd yn casglu data a mewnwelediad i ddeall ymddygiad ymwelwyr â Harlech i lywio ymyriadau trafnidiaeth pellach yn y tymor hwy er mwyn gwella mynediad, profiad ymwelwyr a manteision i'r dref.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn rhedeg gwasanaeth bws gwennol o Faes Parcio'r Traeth i Faes Parcio Bron y Graig Isaf bob hanner awr o 9.45am i 5.45pm bob dydd yn ystod gwyliau'r haf (o ddydd Sadwrn $21^{ain}$ Gorffennaf i ddydd Sul $2^{il}$ Medi). Mae'n bosibl y bydd hefyd yn cynnwys cysylltiad bob awr o Harlech Uchaf ac Ogofâu Llechi Llanfair, yn amodol ar amserlennu.

Bydd y gwasanaeth yn codi £1 y daith i oedolion a 50c i blant.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The purpose of this pilot is to determine whether a financially sustainable model for running the service can be established which will pay for itself from a combination of user revenues and contributions from the visitor attractions, traders and Community Council.The pilot will also collect data and insight to understand the behaviour of visitors to Harlech to inform further transport interventions in the longer-term to enhance access, visitor experience and benefits to the town.

*Overview of the project:*

The project will run a shuttle bus service from the Beach Car Park to Bron y Graig Isaf Car Park at half-hourly intervals from 9.45am to 5.45pm every day during the summer holidays (from Saturday 21st July to Sunday 2nd September). It will possibly also include an hourly connection from Upper Harlech to Llanfair Slate Caverns and Farm Park, subject to timetabling.

The service will charge £1 per trip for adults and 50p for children.




# **Presgripsiwn Cymdeithasol** Social Prescription (AGW.083)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Profi gwerth 'Presgripsiwn Cymdeithasol' ac ymarfer corff yn yr awyr agored o fewn y Sir hwn, a'r cyfleon economaidd a chymdeithasol a all ddatblygu ohono.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae wedi ei brofi mewn nifer o bapurau a chyhoeddiadau fo'r ffordd orau i wneud ymarfer corff yw ei wneud yn yr awyr agored. Mae'n dda ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.

Felly mae AGW yn cynnal prosiect peilot byr (oddeutu 10 wythnos) sy'n annog grwpiau ac unigolion sydd â heriau iechyd corfforol, iechyd meddyliol, yn ogystal a heriau cymdeithasol, i ddod i ymarfer corff yng Nghwm Idwal (Gwarchodfa Natur).

Rydym wedi dewis yr ardal hwn gan bod rhwydwaith eang o asiantaethau yn bodoli'n barod yno, oll yn barod i gydweithio e.e. GIG, Grŵp Hafal (Tîm Psychosis), Tim Iechyd Meddwl Cymunedol, Cyfuno Gwynedd (yn benodol teuluoedd ifanc). Hefyd mae'r warchodfa yn gyfoethog o ran testynnau teithiau cerdded, sy'n ddelfrydol ar gyfer tynnu'r sylw oddi ar yr ymdrech gorfforol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Prove the value of a 'Social Prescription' and outdoor exercise within this County, and the economic and social opportunities that can be developed from it.

*Overview of the project:*

It has been proved in a number of papers and publications that exercising outdoors is best. It is good for physical and mental health.

Therefore AGW will undertake a short pilot project (approx. 10 weeks) that encourages groups and individuals with challenges of physical health, mental health, as well as social challenges, to exercise in Cwm Idwal (Nature Reserve).

We have chosen this area as a wide network of agencies are already active there, all ready to work together, e.g. NHS, Hafal Group (Psychosis Team), Community Mental Health Team, Gwynedd Fusion (specifically young families). The reserve is also rich in guided walks, which are ideal for drawing attention from the physical effort.




# Grŵp Cynhyrchwyr Gorau Gogledd Cymru

## Best of North Wales Producer Group

## (AGW.074)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae hwn yn brosiect cydweithredu LEADER 3 sir sydd â'r nod o ddangos gwerth economaidd ychwanegol mewn cydweithio â Chonwy, Ynys Môn a Gwynedd wrth gyflenwi digwyddiadau diwylliannol, bwyd a diodydd o ansawdd uchel a phroffesiynol drwy fodel cydweithio cynaliadwy. Bydd y model yn cael ei ddatblygu gyda chynhyrchwyr ac arlwywyr lleol, a fydd yn cael eu hannog drwy god ymddygiad i gefnogi ei gilydd yn y cynnig ym mhob digwyddiad/gweithgaredd. Yn y pen draw, bydd y model wedyn yn mynd allan o Gymru i arddangos y cynnyrch o ansawdd a gynigir gan y 3 sir.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Nod y Prosiect yw datblygu strategaeth integredig sengl ar gyfer hyrwyddo, datblygu a rheoli sectorau cynnyrch ac arlwyo lleol ledled Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn trwy dorri i lawr y rhwystrau traddodiadol yn y sir a chreu un cerbyd i ddarparu digwyddiadau bwyd ledled y rhanbarth.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

This is a 3 county LEADER project that aims to demonstrate the additional economic value in collaborating with Conwy and Anglesey in delivering high quality and professional cultural, food and drinks events through a sustainable collaborative working model. The model will be developed with local producers and caterers who will be encouraged through a code of conduct to support each other in the offering at each event/activity. Ultimately, the model will then be taken out of Wales to showcase the quality produce on offer from the 3 countiesfor food tourism.

*Overview of the project:*

The Project aims to develop a single, integrated strategy for the promotion, development and management of local produce and catering sectors across Conwy, Gwynedd and Anglesey by breaking down the traditional county barriers and creating a single vehicle to deliver food events throughout the region.



# Cryfhau a Marchnata'r Marchnadoedd Cynnyrch Lleol

## Strengthening and Marketing the Local Markets (AGW.067)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r prosiect yn anelu i brofi priodoldeb o gynyddu rhwydweithio a'r llwybr i gyfleoedd yn y farchnad i newydd-ddyfodiaid, a newydd-ddyfodiaid i'r ardal, fel ffordd o gryfhau'r neges farchnad leol. Mae datblygu capasiti rheoli'r farchnad a chanolbwyntio ymdrechion ar ganfod ffyrdd newydd o ddod â mwy o ddewis i ddefnyddwyr wedi gweithio mewn ardaloedd eraill.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn anelu'n gyntaf at gryfhau'r rhanddeiliaid sy'n rheoli'r marchnadoedd drwy greu rhwydwaith sirol draws marchnadoedd cynnyrch lleol. Bydd hyn yn cynnwys gweithdy, cyngor ac arweiniad a gaiff ei gontractio oddi wrth sefydliadau marchnad megis Cymdeithas Genedlaethol Awdurdodau Marchnadoedd Prydain (NABMA) - Llais Marchnadoedd.
Bydd y prosiect wedyn yn cymryd rhan mewn rhaglen o hyrwyddo a recriwtio i gynnwys y farchnad cynhyrchwyr lleol sy'n dymuno archwilio llwybr ychwanegol i'r farchnad.

Yn ychwanegol, drwy hyrwyddo peilot ar draws y ddwy sir, bydd y newydd-ddyfodiaid a'r marchnadoedd a gynhwysir yn y cynllun peilot yn cael dyrchafiad ffocws ychwanegol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The project aims to demonstrate how a collaborative approach could improve footfall to the markets of Gwynedd and Anglesey.

*Overview of the project:*

The project will aim firstly strengthen the market management stakeholders by creating a cross county network of local produce markets. This will include workshop, advice and guidance contracted from market organisations such as the NABMA.
The project will then engage in a program of promotion and recruitment to the market content from local producers that wish to explore an additional route to market.

Additionally through the pilot promotion across the two counties, the new entrants and the markets included in the pilot will receive additional focused promotion.




# Cyfleon Buddsoddi Pen Llŷn

## Internal Investment Pen Llŷn

## (AGW.022)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Bod yna gyfleoedd buddsoddi hyfyw ar gyfer buddsoddwyr ym Mhen Llŷn er mwyn cefnogi a hybu'r economi leol. Cadw perchnogaeth yn yr ardal leol, a sicrhau bod elw yn cael ei gylchu'n ôl i'r gymuned.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae 3 math o fuddsoddiad. Diffinnir y rhain fel a ganlyn:

•**Buddsoddiad echdynnol**: Dyma'r hyn a geir pan fo cwmnïau mawr yn gwneud busnes yn eich tref. Caiff swyddi eu creu a bydd arian yn mynd i mewn i'r economi, ond cymhelliant sylfaenol y busnes yw tynnu arian o'r gymuned.

•**Buddsoddiad mewnol**: Dyma pryd y daw cyllid datblygu o ffynonellau allanol i mewn i'r gymuned. Gallai fod yn arian llywodraeth neu'n fuddsoddwr preifat mawr. Gall y rhain greu buddion economaidd, fodd bynnag, mae'r datblygiadau yn aml ar raddfa fawr ac anaml mae'r rheolaeth yn aros yn lleol.

•**Buddsoddiad mewnol:** Dyma "gymuned yn buddsoddi ynddi ei hun", drwy gydweithrediad neu gynlluniau cyfranddaliadau neu unrhyw fecanwaith arall sy'n caniatáu i bobl gronni eu hadnoddau. Mae hyn yn cadw perchnogaeth yn yr ardal leol, ac yn sicrhau bod elw yn cael ei gylchu'n ôl i'r gymuned.

**Mae'r prosiect hwn yn awyddus i nodi "cyfleoedd mewnol" ym Mhen Llŷn.**

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

That there are viable investment oportunities for investors in Pen Llyn in order to support and grow the local economy. Keeping ownership in the local area, and ensuring that profits are cycled back into the community.

*Overview of the project:*

There are 3 types of investment. These are defined as follows:

•**Extractive investment**: This is what you get when big companies do business in your town. Jobs are created and money enters the economy, but the primary motivation of the business is to extract money from the community.

•**Inward investment**: This is when development finance from outside sources enters a community. It could be government or a large private investor. These can generate economic benefits however the developments are often on a large scale and control is rarely kept local.

•**Internal investment:** This is "a community investing in itself", through co-ops or share schemes or any other mechanism that allows people to pool their resources. This keeps ownership in the local area, and ensures that profits are cycled back into the community.

**This project is eager to identify "internal opportunities" in Pen Llyn.**

# THEMA 3

## **Gwastraff Swmpus** Bulky Waste (AGW.003)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
Bwriad y prosiect hwn yw allanoli gwasanaeth Gwastraff Swmpus Cyngor Gwynedd i Fentrau Cymdeithasol yng Ngwynedd.

*Trosolwg o'r prosiect:*
Cynigir i gomisiynu dwy Fenter Gymdeithasol (Seren Cyf ac Antur Waunfawr) i wneud darn o waith ymchwil i Arloesi Gwynedd Wledig er mwyn casglu data.

Y bwriad fyddai i 1 aelod o staff Seren Cyf ac 1 aelod o staff Antur Waunfawr i ymuno â staff Cyngor Gwynedd ar y loriau gwastraff swmpus am 2 fis, a chadw cofnod o'r deunyddiau a gesglir. Byddai'r data real yma'n caniatáu gwneud dadansoddiad desg o werth yr eitemau o gesglir ac os byddai modd ei ailddefnyddio.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
The long term aim of this project is to outsource Gwynedd Council's Bulky Waste service to Social Enterprises in Gwynedd.

*Overview of the project:*
It is proposed to commission two Social Enterprises (Seren Cyf and Antur Waunfawr) to undertake a piece of work for Arloesi Gwynedd Wledig to collect data.

The aim is for 1 member of Seren Cyf staff, and 1 member of Antur Waunfawr staff to join Gwynedd Council's staff whilst out and about on the bulky waste lorries for 2 months, and keep a record of the furniture/waste collected and decide whether they are reusable.



# O Ddrws i Ddrws

# (AGW.037)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Peilota os yw system ddigidol i archebu ar-lein yn gynaliadwy i grŵp cludiant cymunedol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae O Ddrws i Ddrws wedi bod yn rhedeg y peilot Bws Arfordir Llŷn yn llwyddiannus ers 2015, maent nawr yn awyddus i dreialu ffyrdd arloesol o wneud y bws arfordir yn gynaliadwy. Mantais y bws arfordir yw gwella mynediad i gerdded llwybr yr arfordir, mynediad i atyniadau treftadaeth, a gwella gwasanaeth teithio i bobl leol.

Mi fydd Arloesi Gwynedd wledig yn peilota prosiect i ddysgu os yw system ddigidol i archebu ar-lein yn gynaliadwy i grŵp cludiant cymunedol. Mae nifer o grwpiau cludiant cymunedol yng Ngwynedd, ac maent i gyd yn ceisio canfod ffyrdd newydd o wneud y bws yn rhwydd i'w ddefnyddio i'r gymuned ac yn gynaliadwy.

http://www.bwsarfordirllyn.co.uk/

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Pilot to learn if a digital booking system is sustainable for a community transport group.

*Overview of the project:*

O Ddrws i Ddrws have been running the Llŷn Coastal Bus pilot successfully since 2015, they are now eager to trial innovative ways of making the coastal bus sustainable for the future. The main purpose of the coastal bus is to improve access to walk the Llŷn coastal path, access to visit heritage attractions and improve transport service for local people.

Arloesi Gwynedd Wledig will be piloting a project to learn if a digital booking system is sustainable for a community transport group. There are numerous community transport groups in Gwynedd who are all seeking new ways to make their bus service accessible to everyone and to make it sustainable for the future.







# **Ceir Cymunedol Trydanol** Community Electric Cars (AGW.089)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Bwriad y cynllun peilot yw treialu ceir cymunedol trydanol yng Ngwynedd. Y bwriad fyddai i leoli 2 gar mewn cymunedau gan hybu defnydd o gar cymunedol fydd ar gael i wasanaethu'r ardal yn ogystal â hybu defnydd o geir trydan.

Mi fydd monitro defnydd y ceir yn hanfodol er mwyn gweld ar gyfer pa ddiben yw prif ddefnydd y ceir.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y ceir trydan cymunedol wedi eu lleoli mewn cymunedau yng Ngwynedd. Bydd pwyslais yn cael ei roi ar y gymuned i redeg y cynllun gyda'r bwriad o fonitro i weld os fydd posib parhau a'r cynllun yn yr hirdymor er mwyn ateb gofynion lleol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The pilot study is intended to trial community electric cars in Gwynedd. The intention is to place 2 cars in communities, thus promoting the use of a community car that will be available to serve the area as well as promoting the use of electric cars.

Monitoring the usage of the cars is essential to see what is the main need for the cars in the communities.

*Overview of the project:*

The community electricity cars will be located in three communities in Gwynedd. Emphasis will be placed on the community to run the scheme, with the intention of monitoring it to see whether it is possible to continue the scheme in the long term to meet local needs.

# Arloesi Gwynedd Wledig

www.arloesigwyneddwledig.com

## THEMA 4

## Cyd Ynni

## (AGW.077)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Astudiaeth dichonoldeb i sefydlu partneriaeth ffurfiol fydd yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau gwahanol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Pum fenter gymdeithasol sy'n awyddus i gydweithio mewn cynlluniau ynni hydro yng Ngwynedd i ddatblygu arbenigedd lleol, gwella cyfleodd cyflogaeth leol mewn ynni adnewyddadwy, ac i sefydlu'r ardal fel Canolfan Ragoriaeth. Drwy gydweithredu, bydd cyfle i ddatblygu'r capasiti er mwyn cael mynediad at wasanaethau a darparu cyfleodd na fyddai ar gael i'r mentrau yn unigol.

Prif nod y prosiect yw cwblhau astudiaeth dichonoldeb a sefydlu partneriaeth ffurfiol fydd yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau gwahanol e.e. cyflogi staff, hyfforddiant, allforio cytundebau, sefydlu gridiau lleol, a phrosiectau effeithlonrwydd ynni.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Feasibility study to establish a formal partnership that will facilitate collaboration on a range of activities.

*Overview of the project:*

Five social enterprises are involved in hydro energy schemes in Gwynedd and are seeking to collaborate in order to develop local expertise, improve local employment opportunities in renewable energy, and establish the area as a centre of excellence. Collaboration will potentially provide a critical mass required to access services and provide opportunities that would not be available to the individual enterprises.

The main aim of the project is to complete a feasibility study and establish a formal partnership that will facilitate collaboration on a range of activities e.g. employment of staff, training, export agreements, establishment of local grids and energy efficiency projects.

**ARLOESI GWYNEDD WLEDIG**
146 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9NU
01766 514 057 | arloesigwyneddwledig.com




Ynni Ogwen

YnNi Padarn Peris

# **Cyllid Torfol** Crowdfunding (AGW.033)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r prosiect yma'n ceisio addysgu cymunedau ar draws Gwynedd o beth i'w ystyried wrth ddefnyddio Cyllid Torfol fel ffordd o godi arian.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn cefnogi tair ymgyrch Cyllid Torfol wahanol, gyda'r nod o ddysgu o'r broses a rhannu arfer da.

Rydym eisoes wedi dechrau cydweithio ar ymgyrch Cyllid Torfol i godi arian ar gyfer dau gynllun ynni hydro cymunedol. Mae Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris wedi penderfynu codi arian ar gyfer eu prosiectau trwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol. Yn ogystal â chefnogi ymgyrch farchnata a chynhyrchu ffilm hyrwyddo, bydd Arloesi Gwynedd Wledig hefyd yn gwerthuso llwyddiant y dull gweithredu hwn ac yn creu ffilm o'r broses. Bydd hyn yn llywio prosiectau yn y dyfodol ac yn cael ei rannu gydag eraill yng Ngwynedd sydd â diddordeb mewn rhedeg eu hymgyrchoedd Cyllid Torfol eu hunain.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

This project aims to educate community groups across Gwynedd of what to consider when using Crowdfunding as a way of raising money.

*Overview of the project:*

The project will support three Crowdfunding campaigns with the aim of learning from the process and sharing best practice.

We have already started to collaborate on a Crowdfunding campaign to raise funds for two community hydro energy schemes. Ynni Ogwen and Ynni Padarn Peris have decided to raise funds for their projects via a community share offer. In addition to supporting the marketing campaign and the production of a promotional film, Arloesi Gwynedd Wledig will also be evaluating the success of the approach and creating a film of the process. This will inform future projects and be shared with others in Gwynedd interested in running their own Crowdfunding campaigns.

# Pwyntiau Ceir Trydan

## Electric Car Charging Points

## (AGW.034)




*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Nod y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r budd Economaidd bosib o osod pwynt gwefru ceir yng Ngwynedd drwy gynnal peilot am 12 mis.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Prif nod y prosiect yw peilota cyfres o bwyntiau ceir trydan yn ardal Meirionnydd.

Mae Strategaeth Datblygu Lleol Gwynedd wedi adnabod potensial cerbydau trydan yn y sir. Er mwyn archwilio'r cyfleoedd mi fydd AGW yn gosod pwyntiau gwefru mewn 5 busnes ym Meirionnydd. Y nod yw cynyddu ymwybyddiaeth leol, casglu data gwerthfawr gan y busnesau a pherchnogion y ceir trydan, a rhannu arfer da ar draws Gwynedd a thu hwnt.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The aim of the project is to increase awareness for businesses of the potential economic benefit of installing car charging points in Gwynedd by running a 12 month pilot.

*Overview of the project:*

The main aim of the project is to establish a Car Charging network in the Meirionnydd area.

The Gwynedd Local Development Strategy identified the potential of electric vehicles in the region. In order to explore the opportunities, AGW will be installing charging points in 5 businesses in Meirionnydd. The aim is to increase local awareness, gather valuable data from businesses and electric car owners, and share good practice across Gwynedd and beyond.




# **Bach a Sych** Small and Dry

# (AGW.052)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

A all gwastraff fferm megis tail fferm a deunyddiau organig eraill gael eu rheoli'n gynaliadwy drwy eu defnyddio i gynhyrchu bionwy (tanwydd) mewn Treuliwr Anaerobig Sych, a chreu sgil-gynhyrchion defnyddiol - yn enwedig gwrtaith? A yw system swp o'r fath yn ddichonadwy, a sut mae'n cyd-fynd ag arferion ffermio cyfredol neu addasadwy? A yw'n debygol o arwain at well rheoli maetholion a llai o lygredd gwasgaredig?

*Trosolwg o'r prosiect:*

Ymchwilio i mewn i'r opsiynau ar gyfer ateb treuliwr micro sych ar gyfer buchesi eidion yr ucheldir - gan ymgorffori deunyddiau fel rhedyn, gwellt y gweunydd a brwyn meddal. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar ddwy fferm a redir gan denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Trwy astudio achos gwirioneddol, yn hytrach na senarios damcaniaethol, y disgwyl yw y bydd yr adroddiad a gomisiynwyd yn dangos o dan ba ddulliau ac opsiynau y gall treuliwr sych micro weithio i reoli gwastraff a maetholion a chynhyrchu ynni carbon isel.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Can farm waste such as farmyard manure and other organic materials, be managed sustainably by using it to generate biogas (fuel) in a Dry Anerobic Digester and to create useful by-products – particularly a fertiliser? Is such a batch system feasible and how does it fit with current or adjustable farming practice? Is it likely to lead to better nutrient management and less diffuse pollution?

*Overview of the project:*

Investigation into the options for a micro dry digester solution for upland beef herds – with the incorporation of the likes of bracken, molinia and soft rush. The study will concentrate on two National Trust tenanted farms within Snowdonia National Park. By studying real cases, rather than hypothetical scenarios, it is expected that the commissioned report will demonstrate under what methods and options a micro dry digester can work to manage waste and nutrients and generate low carbon energy.

**ARLOESI GWYNEDD WLEDIG**
146 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9NU
01766 514 057 | arloesigwyneddwledig.com




# Pico Hydro

## (AGW.045)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

A yw technoleg pico-hydro yn opsiwn cynhyrchu ynni dichonadwy ac ymarferol i fusnesau ac adeiladau cymunedol yng Ngwynedd?

*Trosolwg o'r prosiect:*

Pico-hydro yw'r dechnoleg hydro ar gyfer cynhyrchu llai na 5 KW (bach iawn) sy'n cael ei ddefnyddio ar y safle fel arfer, yn hytrach na chael ei allforio i'r grid. Bydd tyrbin pico-hydro nodweddiadol yn cynhyrchu digon o ynni ar gyfer goleuadau a gwresogi, ond ni fydd yn rhedeg peiriannau.

Er gwaethaf cynhyrchu allbynnau pŵer is gyda llai ar gael i'w allforio neu ei werthu, gall y system hon leihau costau ynni yn sylweddol. Gan gysylltu'r system gyda batris ar gyfer storio wrth gefn, mae gan y system Pico-hydro y potensial i ddarparu trydan ar y safle i gwrdd â pheth o'r galw o sefydliadau cyhoeddus megis ysgolion cynradd, neuaddau cymunedol gwirfoddol a busnesau gwledig, fel adeiladau allanol ar ffermydd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Is pico-hydro technology a viable and practical energy production option for businesses and community buildings in Gwynedd?

*Overview of the project:*

Pico Hydro is hydro technology for generating under 5 KW (very small) which is typically consumed on site, as opposed to being exported to the grid. A typical pico hydro turbine will produce sufficient power for lighting and heating, but will not run machinery.

Despite generating lower power outputs with less available to be exported or sold it can significantly reduce energy costs. Linking the system with batteries for back-up storage, a Pico Hydro system has the potential to provide on-site electricity to meet some of the demand of public institutions such as primary schools, voluntary community halls and rural businesses such as farm outbuildings.



# Twizys

## (AGW.049)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Treialu cynllun ceir trydan yng Ngwynedd, gan edrych ar y potensial i osod ceir trydan mewn busnesau er mwyn iddynt gael eu defnyddio gan y busnes a thwristiaid. Byddai hyn yn galluogi pobl i brofi gyrru car trydan, codi proffil ceir trydan, yn ogystal â chynnig ffordd hwyliog a newydd o archwilio'r ardal.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn ceisio sefydlu a gweithredu cynllun peilot ceir trydan (EV) yng Ngwynedd, er mwyn effaith a chyrhaeddiad mwyaf, bydd car trydan wedi'i frandio yn cael ei letya gan 24 fusnesau llety lleol yn eu tro.

Prif amcanion y cynllun yw:

•Rhoi cyfle i bobl gael profiad uniongyrchol o yrru ceir trydan yng Ngwynedd.

•Hyrwyddo ymwybyddiaeth o bob math o gerbydau trydan a chael sgyrsiau amdanynt.

•Cynnig ffordd hwyliog a newydd o deithio o gwmpas ac archwilio'r ardal.

•Lleihau'r defnydd o ynni a chynyddu teithio carbon isel.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Pilot electric vehicle scheme in Gwynedd, looking at the potential to place electric vehicle in businesses in order for them to be used by the business and tourists. This would enable people to experience driving an electric car, raise the profile of electric cars, as well as offering a fun and novel way to explore the area.

*Overview of the project:*

The project will look to set up and operate a pilot electric vehicle (EV) scheme in Gwynedd, for maximum impact and reach a branded EV will be hosted by 24 local accomodation businesses.

The scheme's primary objectives are to:

•Give people the opportunity to have a first-hand experience of driving an EV in Gwynedd.

•Promoting awareness of all types of electric vehicles and having conversations about them.

•Offer a fun and novel way to travel around and explore the area.

•Reduce energy consumption and increase low carbon travel.



# Egni Bro

## (AGW.065)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Os gellir greu cymunedau cynaliadwy drwy adnabod cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yn lleol a'r cyfleon i werthu yr ynni i gartrefi, busnesau a diwydiannau er budd i'r gymuned.

*Trosolwg o'r prosiect:*

O ddychmygu ardal sydd yn cynnwys Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd ac yna dilyn yr afon Dwyryd a Dyffryn Maentwrog drwy Penrhyndeudraeth lawr i Borthmadog, gallwn adnabod cyfleon i :-

- gynyddu'r nifer o gynlluniau cynhyrchu a storio ynni carbon isel - trydan, gwres a thanwyddau - ym mherchnogaeth gymunedol,
- ddefnyddio'r ynni o'r cynlluniau hyn yn yr ardal gan defnyddwyr/defnydd sydd yn bodoli eisoes, a defnyddwyr potensial a newydd gellir eu creu neu ddenu i'r ardal, yn ogystal â chyfleon creu incwm yn lleol trwy werthu'r ynni i ardaloedd eraill.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

If sustainable communities can be created by identifying renewable energy producers locally and the opportunities to sell the energy to homes, businesses and industries for the benefit of the community.

*Overview of the project:*

Imagining an area that includes Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd and then following the river Dwyryd and Dyffryn Maentwrog through Penrhyndeudraeth down to Porthmadog, we can identify opportunities to:-

- increase the number of low carbon energy generation and storage schemes - electricity, heat and fuels - in community ownership,
- use the energy from these schemes in the area by existing users/uses, and potential and new users who can be created or attracted to the area, as well as creating income generating opportunities locally by selling the energy to other areas.




# **Dewin Ynni** Energy Wizard

# (AGW.048)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

System gyfathrebu cost isel newydd a fydd yn darparu data cynhyrchu lleol amser real i gartrefi.

P'un a fydd gosod technoleg cyfathrebu digidol sy'n dangos cynhyrchu a defnydd lleol mewn amser real yn helpu i newid ymddygiad o ran sut a phryd y mae trigolion yn defnyddio trydan a symud eu galw i amser rhatach o'r dydd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae'r prosiect hwn yn ceisio treialu dau ddull o leihau'r defnydd o drydan yn y cartref. Bydd y cyntaf yn golygu paru defnydd gyda threuliant lleol, a bydd yr ail yn caniatáu i'r perchennog gael mwy o reolaeth dros y defnydd o offer. Manylir ar y ddau ddull isod.

**Cydamseru cynhyrchu a defnydd.**

**Yn ddiweddar, gosododd Ynni Ogwen (Bethesda) eneradur trydan dŵr 100kW sydd â'r potensial i ddarparu trydan yn rhatach i'r gymuned leol. Er mwyn elwa o drydan rhatach, mae angen i deuluoedd lleol gydamseru eu defnydd â chynhyrchu lleol. Mae'r prosiect hwn yn ceisio treialu technoleg a fydd yn darparu gwybodaeth amser real i alluogi i hyn ddigwydd.**

Gosodwyd 100 o uwch fesuryddion fel rhan o'r treial Ynni Lleol ym Methesda. Mae'r mesuryddion yn darparu 100 o gartrefi gyda gwybodaeth am y canlynol:

- Defnydd o drydan gan y gymuned
- Defnydd o drydan gan y cartref
- Cynhyrchu lleol

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

A new low cost communication system which will provide real time local generation data to households.

Whether installing digital communications technology that show local generation and usage in real time, will help change behaviour as to how and when residents use electricity and shift their demand to cheaper times of the day.

*Overview of the project:*

This project seeks to trial two approaches to reducing electricity use in the home. The first will involve matching usage to local consumption, and the second will allow the householder to have greater control over the use of appliances. These two approaches are detailed below.

**Synchronising production and usage.**

**Ynni Ogwen (Bethesda) have recently installed a 100kW hydroelectric generator which has the potential to provide cheaper electricity to the local community. In order to benefit from cheaper electricity, local households need to synchronise their usage to local production. This project seeks to trial technology which will provide real time information to enable this to happen.**

100 advanced meters have been installed as part of the Energy Local trial in Bethesda. These meters provide 100 households with information on the following:

- The community's electricity use
- The household electricity use
- Local generation

# Ysgol Ynni

# (AGW.038)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Model newydd a fydd yn ymgysylltu â phlant ifanc er mwyn cynyddu eu llythrennedd ynni yn y cyd-destun ynni lleol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae prosiect Ysgol Ynni yn ceisio treialu ysgol haf ynni i blant er mwyn annog plant rhwng 8 a 12 oed i gymryd diddordeb mewn ynni adnewyddadwy (gyda phwyslais ar ynni dŵr), datblygu eu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol, a chynyddu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth o brosiectau sy'n cael eu datblygu yng Ngwynedd.

Os yw'r cynllun peilot yn llwyddiannus, y nod yw ailadrodd y prosiect drwy ddefnyddio'r brand, y gweithgareddau a'r rhaglen mewn ardaloedd eraill o Wynedd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

A new model that will engage with young children in order to increase their energy literacy within the local energy context.

*Overview of the project:*

The Ysgol Ynni project seeks to pilot a children's energy summer school in order encourage children between the ages of 8 and 12 to take an interest in renewable energy (with an emphasis on hydro), develop their understanding of the historical context, and increase their awareness of the array of projects being developed in Gwynedd.

If the pilot is successful the aim is to replicate the project by utilising the brand, the activities and programme in other areas of Gwynedd.

https://www.facebook.com/ArloesiGwyneddWledig/videos/1756582601258592/

http://www.arloesigwyneddwledig.com/swydd-haf-ysgol-ynni/?lang=en




# **Ynni Gogledd Cymru** North Wales Energy (AGW.092)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Cyflenwi Ynni Cymunedol Lleol i fusnesau lleol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn sefydlu mecanwaith i fusnesau ardal Cyd Ynni i elwa ar dariff ynni Hydro lleol (Ynni Padarn a Ynni Anafon) sy'n cynnig prisiau is i ddefnyddwyr a gwell pris i gynhyrchwyr, er enghraifft tua 7-8 c/kWh.

Bydd rhyngwyneb gwe yn cael ei greu i'r gyfathrebu gyda defnyddwyr o ran y prisiau sydd ar gael. Y bwriad yw lleihau'r oedi sy'n gysylltiedig â data ynni er mwyn galluogi mwy o baru â galw effeithiol a chall i ddefnyddwyr.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Supply Local Community Energy to local businesses.

*Overview of the project:*

The project will set up a mechanism for business in the Cyd Ynni areas to benefit from local Energy tariff (Ynni Padarn & Ynni Anafon) that offers consumers a reduced price and generators an enhanced price, for example at circa 7-8p/kWh.

A web-based interface will be created to communicate with consumers with respect to the tariffs available. It intends to minimise the delay associated with energy data to enable more intelligent and effective demand matching for consumers.





# THEMA 5

# O Glust i Glust

## (AGW.004)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Y nod yw treialu dewis amgen sydd yn rhad (neu am ddim) yn hytrach na'r offer presennol sydd yn medru bod yn rhwystr i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn bwysig yng Nghymru ac os yn bosib dylid lleihau rhwystrau i'w ddefnyddio. Yn 2014 derbyniodd Menter Môn grant gan LLC i ddatblygu O Glust i Glust, sef ap cyfieithu ar y pryd sydd yn diosg yr angen am offer traddodiadol is goch, gan ddefnyddio ffonau symudol yn eu lle.

Nod Arloesi Gwynedd Wledig yw treialu'r ddarpariaeth mewn sefyllfaoedd amrywiol er mwyn dysgu a rhannu'r wybodaeth gyda chymunedau sydd yn gwynebu rhwystrau i gynnig ddarpariaeth cyfieithu yn bresennol.

Am fwy o wybodaeth: www.oglustiglust.com

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The aim is to provide a cheap (or free) alternative to translation equipment which can be an obstacle to providing a simultaneous translation service.

*Overview of the project:*

Simultaneous translation is an important service in Wales and where possible obstacles should be removed to make it easy to access and use. In 2014 Menter Mon received a grant via WG to develop O Glust i Glust, a translation app which erases the need for traditional infrared translation equipment, and replaces it with mobile phones.

Arloesi Gwynedd Wledig's aim is to trial the provision in various situations to learn and share information with communities currently facing barriers to offering translation facilities.

For more information: www.oglustiglust.com

@oglustiglust







# ‘Pentre-fi’ Aberdaron

# (AGW.032)

*Beth mae’r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae’r prosiect yn ymateb arloesol i ardaloedd gwledig digyswllt symudol- yn benodol i’r rhai sydd wedi eu hallgau yn ddigidol.

*Trosolwg o’r prosiect:*

Prif nod prosiect Pentre-fi yw peilota cysylltiad Wi-Fi cyhoeddus ym mhentref Aberdaron. Mae ardaloedd gwledig, fel Aberdaron, yn aml yn dioddef o ddarpariaeth symudol wael iawn a dim cysylltiad 3G/4G. Oes bosib i gymunedau gwledig gwneud pethau ffordd eu hunain a dod o hyd i ffyrdd creadigol ac arloesol i gadw i fyny ar fyd modern? Dyma beth mae Arloesi Gwynedd Wledig yn ceisio’i ganfod!

Aberdaron fydd y pentref gyntaf yng Ngwynedd i gynnig cysylltiad Wi-Fi cyhoeddus, a bwriedir rhannu arfer da ar draws Gwynedd a thu hwnt.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

This project is an innovative response to mobile ‘not spots’ in rural Gwynedd - in particular for those who are excluded digitally.

*Overview of the project:*

The main aim of the Pentre-fi project is to pilot a public access Wi-Fi connection in the village of Aberdaron. Rural areas, such as Aberdaron, often suffer from very poor mobile provision and no 3G/4G connection. Is it possible for rural communities to do things their own way and discover innovative and creative ways to keep up with modern life? This is what Arloesi Gwynedd Wledig is trying to uncover!

Aberdaron will be the first village in Gwynedd to offer a public Wi-Fi connection, and we aim to share good practice across Gwynedd and beyond.





# **Byw a Bod: Digidol** Byw a Bod: Digital (AGW.043)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r prosiect yn ceisio amlygu'r cyfleoedd gyrfa o ansawdd uchel yn y sector TGCh sydd yng Ngwynedd, yn ogystal â'r cyfleon ffordd o fyw ardderchog sydd yn y Sir.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Cyfle i israddedigion gwyddonol i gymryd rhan mewn prosiect digidol uchelgeisiol i ddangos beth sydd gan Wynedd i'w gynnig.

Gall Gwynedd gynnig cyflogaeth gwerth uchel ac ansawdd bywyd rhagorol. Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn chwilio am 5 israddedigion gwyddonol uchelgeisiol. Bydd y prosiect Byw a Bod Digidol yn cynnig cyfle unigryw i weithio gyda rhai o gwmnïau digidol mwyaf blaenllaw'r sir a phrofi beth arall sy'n mynd ymlaen yng Ngwynedd.

Yn cynnwys 10 wythnos o waith dros yr haf gyda chwmnïau TGCh ym Mharc Menai a chymryd rhan mewn ffilmiau hyrwyddol fel rhan o ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The project aims to demonstrate that Gwynedd has good quality career opportunities in the ICT sector and can offer excellent lifestyle opportunities.

*Overview of the project:*

An opportunity for undergraduates in scientific disciplines to participate in an aspirational project to demonstrate what Gwynedd has to offer.

Gwynedd can offer high value employment and excellent quality of life. Arloesi Gwynedd Wledig is looking for 5 ambitious and outgoing science undergraduates to demonstrate this. The Byw a Bod project will provide a unique opportunity to work with some of the county's leading companies and experience what else goes on in Gwynedd.

Includes 10 weeks paid employment with ICT companies in Parc Menai and participation in promotional films and a social media campaign.




# Aberdaron: Dadansoddi ac Ecsbloetio Data
## Aberdaron: Data Analytics and Exploitation

## *(AGW.013)*

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Bydd y prosiect yn ceisio dangos sut y caiff data a gasglwyd drwy Wi-Fi mynediad agored digidol ei harneisio, ei ddadansoddi a'i ecsbloetio.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Ar hyn o bryd mae Arloesi yn treialu Wi-Fi cymunedol rhad ac am ddim yn Aberdaron. Daeth y system ymlaen am y tro cyntaf ar ddechrau mis Mai 2016, ac mae wedi bod yn boblogaidd iawn gyda busnesau a'r cyhoedd. Yn ogystal â darparu mynediad i'r rhyngrwyd mae'r system hefyd yn caniatáu i'r gweinyddwr gynaeafu data (math o ddyfais, rhaglenni, faint o data a ddefnyddiwyd, ayyb.)

Nod y prosiect yw dangos sut y gall data gael ei ddefnyddio, a sut mae'n darparu elfen bwysig o "werth ychwanegol" i Wi-Fi cymunedol. Bydd hyn yn rhoi cymhelliad ychwanegol i gymunedau fabwysiadu'r dull hwn a'u hannog i fuddsoddi mewn isadeiledd eu hunain.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The project will seek to demonstrate how digital data collected via open access Wi-Fi can be harnessed, analysed and exploited.

*Overview of the project:*

Arloesi is currently piloting free community Wi-Fi in Aberdaron. The system was first switched on in the beginning of May 2016 and has proved very popular with the businesses and the public. As well as providing access to the internet the system also allows the administrator to harvest data (type of devices used, applications, amount of data, etc.)

The project aims to demonstrate how data can be utilised and provides an important element of "added value" to the community Wi-Fi. This will provide communities with an added incentive to adopt this approach and encourage them to invest in their own infrastructure.

**ARLOESI GWYNEDD WLEDIG**
146 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9NU
01766 514 057 | arloesigwyneddwledig.com



# Ffitbit Gwartheg

# (AGW.019)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Asesu os yw gwartheg sydd wedi eu gaeafu allan dros y gaeaf yn fwy ffit ar gyfer lloia yn y gwanwyn i'w cymharu a gwartheg wedi eu buarthu. Codi ymwybyddiaeth o cyfleoedd technoleg digidol ymysg y diwydiant amaeth yn Ngwynedd.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae'r sector amaeth wedi ei flaenoriaethu o fewn y Strategaeth Datblygu Lleol a mae swyddogion Arloesi Gwynedd Weldig wedi mynychu cyfres o gyfarfodydd i gyflwyno cynllun LEADER. Hyd yma mae'r ymateb wedi bod yn araf gyda diffyg dealltwriaeth o beth yw'r cyfleoedd trwy'r cynllun.

Mae Arloesi Gwynedd Wledig wedi bod mewn trafodaethau gyda Glynllifon (rhan o Grwp Llandrillo Menai) er mwyn adnabod cynlluniau posib er mwyn sbarduno diddordeb. Rhedir rhan helaeth o gyrsiau amaeth o Campws Glynllifon a mae ganddynt fferm weithio. Yn sgil hyn mae ganddynt gysylltiadau eang, dealltwriaeth o'r diwydiant ac adnoddau wrth law.

Datblygwyd y cynllun ar y cyd gyda'r Coleg er mwyn (a) codi ymwybyddiaeth o'r cynllun a arloesedd digidol yn benodol (b) a dangos cynllun peilot ar waith.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

To assess whether the cows that have been outwintered are fitter for spring calving compared to penned cows. To raise awareness of digital technology opportunities among the agricultural industry in Gwynedd.

*Overview of the project:*

The agricultural sector has been prioritised within the Local development Strategy, and Arloesi Gwynedd Wledig officers have attended a series of meetings to present LEADER. So far the response has been slow, with a lack of understanding of the opportunities available through the scheme.

Arloesi Gwynedd Wledig has been in talks with Glynllifon (part of the Llandrillo Menai Group) to identify potential schemes to stimulate interest. Many of the agriculture courses are run from Glynllifon campus and they have a working farm. Because of this, they have wide connections, and an understanding of the industry and resources on hand.

The scheme was developed in conjunction with the College in order to (a) raise awareness of the scheme and in particular digital innovation and (b) to show the pilot scheme in operation.



# Arloesi Gwynedd Wledig

www.arloesigwyneddwledig.com

## Dementia Frongoch

## (AGW.056)






*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Treialu a profi rôl technoleg ddigidol yn y sector gofal er mwyn ceisio cynyddu annibyniaeth unigolion

*Trosolwg o'r prosiect:*

Disgwylir i'r prosiect gyfrannu tuag at y gwaith ehngach sydd yn digwydd yn ardal Gwyrfai o greu 'cymuned dementia gyfeillgar'. Mae'r prosiect wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gyd cynrychiolwyr o Cyngor Gwynedd a'r gymuned fusnes lleol.

Bydd y prosiect yn treialu'r dechnoleg 'geo fencing' mewn un busnes yn ardal Gwyrfai (Canolfan Arddio Fron Goch) am gyfnod o 3 mis rhwng Ionawr a Mawrth 2018. Mae geo -ffens yn galluogi rhywun i osod perimedr rhithwir(virtual perimiter) ar gyfer ardal ddaearyddol.

Mae'r dechnoleg hwn eisoes wedi cael ei ddatblygu o fewn Adran TG Cyngor Gwynedd, a caiff ei osod gan swyddogion CG.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Pilot and test the role of digital technology in the care sector to try to increase the independence of individuals

*Overview of the project:*

The project is expected to contribute to the work that is happening in the Gwyrfai area to create a 'dementia friendly community'. The project has been developed jointly with representatives from Gwynedd Council and the local business community.

The project will pilot the 'geo fencing' technology in one business in the Gwyrfai area - Fron Goch Garden Centre - for a period of 3 months between January and March 2018.. A geo-fence allows one to set a virtual perimeter for a geographical area.

This technology has been developed already in Gwynedd Council's IT department, and will be installed by GC officers.




# **Pori Manwl** Precision Grazing

# (AGW.053)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Asesu manteision rheoli pori dwys i ffermwyr yng Ngwynedd er mwyn lleihau costau cynhyrchu a chynyddu allbwn anifeiliaid fesul acer.

Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd technoleg ddigidol ymhlith y diwydiant amaethyddol sy'n draddodiadol yn amharod i ymgysylltu.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae Pori Manwl yn ddull o ffermio sy'n rhannu'r caeau mawr i badogau un hectar er mwyn rheoli pori yn well, rheoli'r gorchudd glaswellt a chynyddu incwm ac elw fferm.

Bydd y prosiect yn cynnwys y canlynol:

•Paratoi'r safle a phrynu'r holl offer angenrheidiol

•Cael cymorth arbenigol i roi cyngor ar sut y dylai'r treial fynd yn ei blaen

•Monitro cynnydd y treial a chasglu data trwy'r 12 mis

•Trefnu nifer o ddigwyddiadau agored i ddangos sut mae'r system yn gweithio

•Cynhyrchu ffilm am y system

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

To assess the benefits of management intensive grazing for farmers in Gwynedd in order to reduce production costs and increase animal output per acre.

To raise awareness of digital technology opportunities among the agricultural industry that are traditionally reluctant to engage.

*Overview of the project:*

Precision Grazing is method of farming that subdivides large fields into one hectare paddocks in order to better manage grazing, control grass cover and increase a farm's income and margins.

The project will involve the following:

•Preparing the site and purchase all necessary equipment

•Procure specialist support to advise on how the trial should proceed

•Monitor the progress of the trial and collect data throught the 12 months

•Arrange several open events to show how the system works

•The production of a film on the system




## **Technoleg LoRaWan** Technology

## (AGW.055)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Arbrofi ar safle benodol er mwyn cyfrannu at greu a datblygu 'internet of things' mewn ac ar gyfer ardaloedd gwledig

Profi isadeiledd priodol (e.e. TVWhitespace / LoRaWans) er mwyn cefnogi'r uchod.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Datblygwyd y cynllun ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd a'r Grwp Llandrillo-Menai (Coleg Glynllifon). Y cysyniad yw creu 'test bed' / labordy i annog cyflwyno a datblygu 'internet of things' yng nghyd destun amaeth / ardaloedd gwledig.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Using a specific site, to create and contribute towards the development of SMART Technology ('internet of things') in, and for, rural areas

Pilot an appropriate infrastructure (eg TVWhitespace / LoRaWans) to enable and support the above.

*Overview of the project:*

The scheme has been developed in conjunction with Gwynedd Council and the Llandrillo-Menai Group (Coleg Glynllifon). The concept is to create a 'test bed' / laboratory to encourage the introduction and development of 'internet of things' in the context of agricultural / rural areas.




ACADEMI DRONAU
GWYNEDD
DRONE ACADEMY

# **Academi Drôns Gwynedd** Gwynedd Drone Academy

## *(AGW.073)*

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
Rhoi cyfle i bobl ifanc gael profiad a dysgu ynglŷn â defnyddio dronau a sut i'w defnyddio'n ddiogel.

*Trosolwg o'r prosiect:*
Mae Llanbedr yn un o ddim ond dau leoliad yn y DU sy'n caniatáu i ddronau hedfan gyda llai o reoliadau o fewn radiws o 10km o'r maes awyr

Bydd hwn yn brosiect peilot i greu Ysgol Dronau ym maes awyr Llanbedr, ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Bydd y bobl ifanc yn dysgu sut i ddefnyddio dronau yn ddiogel mewn amgylchedd rheoledig.

Ceir nifer o sesiynau a fydd yn rhedeg ar y penwythnos o'r Pasg tan yr haf a bydd yn rhoi cyfle i ddysgu am lawer o agweddau o'r dronau, a'r diwydiannau y gellir eu defnyddio ynddynt. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud mewn timau a bydd pwyslais ar gystadleuaeth. Bydd hefyd cyfle i rieni gymryd rhan ar gyfnodau allweddol.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
Giving young people the chance to experience and learn about the uses of drones and how to use them safely.

*Overview of the project:*
Llanbedr is one of only two locations in the UK which allows drones to be flown with reduced regulations within a 10km radius of the airfield.

This will be a pilot project to create a Drones School at Llanbedr airfield, for children aged 14-19. Young people will learn how to use drones safely in a controlled environment.

There will a number of sessions that will run at the weekends from Easter until the summer and will provide an opportunity to learn the many facets of drones, and the industries that they can be used in. Most of the work will be done in teams and there will be an emphasis on competition. There will also be an opportunity for parents to become involved at key stages.




# **Tŷ Digidol** Digital House (AGW.070)



*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*
I dreialu'r defnydd o dechnoleg ddigidol mewn tŷ i gwrdd ag anghenion a dyheadau pobl sy'n byw gydag ystod o namau a chyflyrau tymor hir.

*Trosolwg o'r prosiect:*
Bwriad y prosiect yw sefydlu adnoddau technoleg digidol arbrofol mewn llety newydd gwyliau/ysbaid preswyl sy'n cynnig adnoddau ar gyfer pobl ag anhenion ychwanegol e.e. pobl ag anableddau dysgu neu anableddau corfforol,ar dir Antur Waunfawr. Adeiladir y llety ar hyn o bryd ar dir Capel Bethel sy'n gyfagos i safle 7 acer Antur Waunfawr, gyda maes chware arbennig i'r anabl, parc natur, gerddi, caffi ac adnoddau llesiant ychwanegol. Bwriadwn gylfawni'r prosiect i arbrofi a dysgu am anghenion preswylwyr anabl, arddangos a phrofi gwerth y teclynnau digidol ymysg grwpiau o ymwelwyr, asiantaethau a mudiadau o ddiddordeb, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd a chwsmeriaid lleol a'r rhai sy'n ymwelwyr a'r ardal.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*
To trial the use of digital technology in a house to meet the needs and desires of people living with a range of impairements and long term conditions.

*Overview of the project:*
The project aims to establish experimental digital technology resources in new holiday/residential respite accommodation that offers resources to people with additional needs, e.g. people with learning disabilities or physical disabilities, on Antur Waunfawr land. The present accommodation is built on Bethel Chapel land, which is adjacent to the 7 acre site of Antur Waunfawr, with a special play area for disabled, nature park, gardens, cafe and additional wellbeing resources. We intend to deliver the project to experiment and learn about the needs of disabled residents, demonstrate and prove the value of digital gadgets among groups of visitors, interested agencies and organizations, service users and families, and local customers and visitors to the area.




# Dementia VR

## (AGW.063)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Deall dementia drwy brofiad rhithwir (VR) yn Gymraeg.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y dechnoleg ddiweddaraf i greu byd rhithwir yn seiliedig ar sefyllfa person sy'n byw gyda dementia. Bydd yn creu byd digidol, gan wthio ffiniau o ran defnydd arloesol o dechnoleg i'r perwyl hwn. Bydd defnyddwyr y dechnoleg yn rhan o'r byd digidol ac yn rhyngweithio'n llawn drwy synhwyrydd fydd ar eu dwylo gan eu galluogi i agor drysau, codi gwrthrychau a theimlo fel pe baent yn byw gyda dementia.

Nod y prosiect yw creu adnodd i'w ddefnyddio er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddementia gyda amrediad eang o grwpiau o fewn cymunedau, a hefyd er mwyn cynnig hyfforddiant i bobl sy'n dod i gyswllt â phobl sy'n byw gyda dementia yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Understanding dementia through a virtual experience in Welsh.

*Overview of the project:*

The project will focus on the latest technology to create a virtual world based on the situation of a person living with dementia. It will create a digital world, pushing the boundaries of innovative use of technology to this end. Users of the technology will be part of the digital world and will interact fully via a sensor on their hands, that will allow them to open doors, lift objects and feel as if they are living with dementia.

The project aims to create a resource to be used to raise awareness of dementia with a wide range of groups within communities, and also to provide training for people who come into contact with people living with dementia daily in their work.

# Systemau Digidol Cymunedol

## Digital Systems for Communities

## (AGW.080)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Treialu systemau digidol a allai helpu cymunedau i leihau eu costau gweinyddol wrth reoli toiledau cyhoeddus, meysydd parcio a chanolfannau cymunedol.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Yn ddiweddar, bu disgwyliad cynyddol ar gymunedau i gymryd cyfrifoldeb am asedau neu wasanaethau lleol oherwydd toriadau i'r pwrs cyhoeddus. O ganlyniad i'r uchod, mae Arloesi wedi bod yn gweithio gyda swyddogion adfywio ac wedi nodi'r heriau sy'n wynebu'r cymunedau i geisio sicrhau bod gwasanaethau'n parhau mewn cymunedau gwledig.  E.e. toiledau / meysydd parcio / neuaddau pentref.

Mae AGW yn treialu i weld os y gall technoleg newydd gynnig ateb all gynnal yr asedau neu'r gwasanaethau yn y cymunedau yma yng Ngwynedd.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Pilot digital systems that could help communities reduce their administrative costs when managing public toilets, car parks and community centres.

*Overview of the project:*

Recently, there has been a growing expectation on communities to take responsibility for local assets or services due to cuts to the public purse. As a result of the above, Arloesi have been working with regeneration officers and has identified the challenges facing the communities to try to ensure that services continue in rural communities. E.g. toilets / car parks / village halls.

AGW are trialling this project to see if new technology can offer a solution that can support and maintain these assets or services within communities in Gwynedd.




# **Perchnogaeth Gymunedol** Community Ownership (AGW.016)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Bydd y prosiect yn ceisio dangos a phrofi gallu cymunedau i gymryd perchnogaeth a sicrhau cynaladwyedd asedau a/neu wasanaethau cyhoeddus Peilota modelau a ffyrdd newydd ac arloesol o'u gweithredu.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mae disgwyl cynyddol yn ddiweddar ar gymunedau i gymryd cyfrifoldeb am asedau neu wasanaethau lleol yn sgil toriadau i'r pwrs cyhoeddus. Yn sgil yr uchod roedd Arloesi yn awyddus i gydweithio gyda cymunedau yng Ngwynedd er mwyn treialu a dysgu am fodelau gwahanol o drosglwyddo gwasanaethau i drigolion lleol. Prif nod y prosiect fydd ceisio cyfrannu tuag at greu mentrau cymunedol fydd yn fecanweithiau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r dyfodol. Cynhaliwyd galwad agored ble croesawyd ceisiadau gan gymunedau oedd yn awyddus i gydweithio. Derbyniwyd a phenderfynwyd ar gydweithio a chefnogi 6 o gymunedau o fewn y Sir, i gyd yn edrych ar wasanaethau gwahanol o lyfrgelloedd, i harbyrau, gwasanaethau bwrdeistrefol ac amgueddfa.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The project will seek to demonstrate and test the ability of communities to take ownership and ensure sustainability of assets and/or public services. Piloting models and new and innovative ways of implementing them.

*Overview of the project:*


Recently there has been a growing expectation for communities to take responsibility for assets or local services due to cuts to the public purse. In light of the above Arloesi is eager to cooperate with communities in Gwynedd to trial and learn about different models of transferring services to local residents. The main aim of the project will be to contribute towards community initiatives that will create mechanisms for the provision of future services. An open call was held where we welcomed applications from communities who wished to cooperate. It was decided to co-operate and support 6 communities in the county, all looking at different services, from libraries to harbours, municipal services and a museum.



# Arloesi Gwynedd Wledig

www.arloesigwyneddwledig.com

## **Wi-Fi Wyddfa** Snowdonia Wi-Fi (AGW.084)




*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Peilota seilwaith digidol arloesol ar gyfer Cysylltedd Wi-Fi Mynediad Cyhoeddus mewn ardal wledig ar droes y Wyddfa.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bu Arloesi Gwynedd Wledig mewn trafodaeth â Pharc Cenedlaethol Eryri ar elfennau allweddol o Gynllun Partneriaeth yr Wyddfa i uwchraddio a moderneiddio seilwaith ymwelwyr hanfodol yn yr ardal, gan arwain at brofiad ymwelwyr gwell a mynediad i'r Wyddfa. Bydd hyn yn cynnwys **datblygu Cysylltedd Wi-Fi yn ardal yr Wyddfa**; gosod lloches haul pob tywydd gwych newydd a fydd yn cyfosod deunyddiau traddodiadol a thechnoleg werdd fodern; a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Bydd y cynllun yn gwella'r ymdeimlad o le, gan gynyddu cynaladwyedd a gwella cyfleusterau ymwelwyr ar gyfer segmentau marchnad allweddol.

**Prif nod y prosiect hwn yw peilota seilwaith digidol arloesol ar gyfer cysylltedd Wi-Fi cyhoeddus o gwmpas yr Wyddfa. (e.e. TVWhitespace)**

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

Pilot an innovative digital infrastructure for Public Access Wi-Fi Connectivity in rural terrain.

*Overview of the project:*

Arloesi Gwynedd Wledig have been in discussion with the Snowdonia National Park on the key elements of the Snowdon Partnership Plan to upgrade and modernising essential visitor infrastructure in the area, leading to a greatly enhanced visitor experience and access to Snowdon. This will include **developing Wi-Fi Connectivity in the Snowdon area** ; installing a new beautifully crafted solar all weather shelter that will juxtapose traditional materials with modern green technology; and installing electric vehicle charging points. The plan will enhance the sense of place, increasing sustainability and improving visitor facilities for key market segments.

**The main aim of this project is to pilot an innovative digital infrastructure for wireless Internet via public access Wi-Fi connectivity around Snowdon. (e.g. TVWhitespace)**





# **Cymunedau Cysylltiedig** Connected Communities (AGW.086)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Mae'r prosiect yn ceisio dangos y canlynol:

• Dangos y bydd cymunedau'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn ag atebion band eang os ydynt yn cael y wybodaeth gan fod nifer o gymunedau yn dal heb fynediad at Fand Eang Cyflym Iawn.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Mynegodd llawer o breswylwyr a pherchnogion busnes eu rhwystredigaeth a'r llwybr a gymerir yw lobïo gwleidyddion, yr awdurdod lleol a darparwyr band eang. Fodd bynnag, mae'r rhaglen gyfredol i gyflwyno Cyflymu Cymru wedi ei chwblhau ac mae'r broses gaffael ar gyfer Cyflymu Cymru 2 (SFW2) ar gam gynnar. Dywedodd Julie James AC, y Gweinidog dros Sgiliau a Thechnoleg, yn gyhoeddus na fydd yr £80 miliwn yn ddigonol i sicrhau y bydd Band Eang Cyflym iawn yn cyrraedd pob cartref, ac mae'r math o brosiect a gynigir yn y cais hwn i'w groesawu.

Mae'r prosiect hwn yn ceisio rhoi gwybodaeth i gymunedau archwilio opsiynau band eang eraill. Ceir enghreifftiau ar draws y DU o bentrefi mewn ardaloedd gwledig sydd wedi gweithredu eu datrysiad technegol eu hunain

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The project is trying to demonstrate the following:

• Demonstrate that communities will be able to make informed decisions regarding broadband solutions if they are provided with the information as several communities remain without access to Superfast Broadband.

*Overview of the project:*

Many residents and business owners have expressed their frustration and the route taken is to lobby politicians, the local authority and broadband providers. However, the current Superfast Wales roll out programme is completed and the procurement process for SFW2 is at an early stage. Julie James AM, the Minister for Skills and Technology, has stated publicly that the £80 million will not be sufficient to ensure Superfast Broadband will reach every home and the type of project proposed in this application is to be welcomed.

This project seeks to provide communities with the knowhow and intelligence to explore alternative broadband options. There are examples across the UK of villages in rural areas implementing their own technical solution.





# Data Gwynedd

## (AGW.093)

*Beth mae'r prosiect yn ceisio ei ddangos, brofi neu ddilysu?*

Bydd y prosiect yn dangos:

•Gellir casglu data trwy seilwaith digidol cymunedol e.e. wifi cymunedol, TVWS

•Gall cymunedau ddefnyddio data a gesglir trwy seilwaith digidol i rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid, cwsmeriaid a grwpiau eraill.

*Trosolwg o'r prosiect:*

Bydd y prosiect hwn yn dangos sut y gellir defnyddio'r data hwn a bydd yn cynnwys dwy elfen sylfaenol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

**Casglu Data :** Bydd prosiect WiFi Cymunedol Gwynedd yn casglu dadansoddiadau data sylfaenol a fydd yn cael eu hanfon at bob cymuned. Mae Aberteifi yn enghraifft dda o hyn fel y dengys y 'tweet' isod.

**Cymunedau deallus :** Bydd y wifi cymunedol wedi ei osod mewn 10 cymuned ar draws Gwynedd erbyn Ebrill 2019 a rhaid i'r holl ddefnyddwyr ddarparu cyfrif e-bost/ cyfryngau cymdeithasol dilys i gael mynediad i'r gwasanaeth. Yn gyfnewid am y wifi am ddim, rhaid i'r defnyddwyr gytuno y gellir defnyddio eu manylion at ddibenion marchnata cymunedol e.e. derbyn cylchlythyr, gwybodaeth am ddigwyddiadau ayb.

*What is the project trying to demonstrate, validate or prove?*

The project will demonstrate:

• Data can collected via community digital infrastucture e.g. community wifi, TVWS

•Communities can use data collected via digital infrastucture to share information with stakeholders, customers and other groups.

*Overview of the project:*

This project will demonstrate how this data can be used and will include two primary elements. These are as follows:

**Collecting Data :** The Gwynedd Community WiFi project will provide basic data analytics which will be sent to each community. This project will collect all the data which will provide access to the data collected locally. This will allow the user to analyse data and identify patterns. Cardigan is a good example of this as the 'tweet' below demonstrates.

**Intelligent communities :** The community wifi will have been installed in 10 communities across Gwynedd by April 2019 and all the users must provide a valid email / social media account to access the service. In exchange for the free wifi the users must agree that their details can be used for